# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Nelson**

**21a Commercial Street**
**Nelson**
**CF46 6NF**



## Dyddiad cyhoeddi

**Dydd Mawrth, 12 Tachwedd 2019**

**_Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018._**
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Nelson wedi ei gofrestru i ddarparu gofal i hyd at 23 o blant o ddwy i bedair oed. Mae'r gwasanaeth wedi ei leoli mewn ystafelloedd pwrpasol mewn tŷ a addaswyd ynghanol stryd fawr Nelson. Mae'r gwasanaeth ar agor o 9:00 tan 12:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol. Rheolir y cylch gan bwyllgor a'r person cyfrifol ydy Anna Webb-Price. Y person â gofal ydy Sharon Lewis-Connolly.
Mae'r gwasanaeth yn ddarparwr addysg blynyddoedd cynnar a mae hefyd wedi ei gofrestru gyda chynllun Dechrau'n Deg.
Mae'r gwasanaeth yn darparu cynnig gweithredol yr iaith Gymraeg gan nodi a diwallu anghenion ieithyddol a diwylliannol y plant sy'n mynychu.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant sy'n mynychu Cylch Meithrin Nelson yn hapus, dedwydd ac yn mwynhau eu hamser yno a'r gweithgareddau amrywiol a drefnir ar eu cyfer. Mae'r staff brwdfrydig yn ymateb i ofynion y plant ac yn meithrin perthynas hyfryd rhyngddynt. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu o ystafelloedd sydd ar ddau lawr yn yr adeilad ac ardal chwarae tu allan sy'n cynnig cyfoeth o brofiadau i blant. Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn gadarn ac yn ysgogi staff i roi o'u gorau. Mae'n gylch cartrefol a chroesawgar sy'n hwyluso'r profiad o ddechrau'r ysgol.

**2. Gwelliannau**

Yn dilyn argymhellion o'r arolwg diwethaf mae'r person â gofal wedi sicrhau bod cynllun dihangfa dân wedi arddangos yn glir ymhob ystafell; cofnodir amser cyrraedd a gadael pob plentyn; gwnaethpwyd newidiadau i sicrhau bod preifatrwydd yn y toiled ar gyfer oedolion. Gwahoddwyd arbenigwr i fewn i edrych ar y risg i blant ddisgyn wrth drothwy'r drws allanol a derbyniwyd cyngor nad oedd dim i'w wneud. Mae'r staff a phlant yn dilyn strategaeth i fod yn ofalgar wrth gamu dros y trothwy. Mae'r person â gofal hefyd wedi sicrhau bod canllawiau rheoli heintiau yn cael eu gweithredu.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Rydym wedi argymell i'r person â gofal edrych am gyfleoedd pellach i ddatblygu annibyniaeth plant, cofnodi gwiriadau o'r ardal tu allan, sicrhau bod pob aelod o staff wedi eu harfarnu dan y drefn newydd a diwygio ffeiliau'r staff.

# 1. Lles

## Crynodeb

Mae’r plant yn hapus, hyderus a chysurus ac yn wir fwynhau eu hamser. Maent yn teimlo’n gartrefol yn eu cynefin a mae hyn yn hybu eu datblygiad a meithrin eu hunanhyder. Mae’r plant wedi datblygu berthynas glòs gyda’r staff a chaiff anghenion unigolion eu diwallu.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae plant yn derbyn cyfleoedd i fynegi beth hoffent ei wneud a gwrandewir arnynt.

Roedd y plant yn elwa o gael dewis o amrywiaeth eang o weithgareddau a hynny ymhob ardal chwarae yn y gwasanaeth. Gwelsom blant yn cael rhyddid i ddewis eu gweithgarwch a newid yn ôl eu dymuniad eu hunain a thrwy hyn roedd lleisiau unigol yn cael gwrandawiad. Yn y brif ystafell weithgareddau roedd amrywiaeth o deganau ar gael i’r plant, neu bosau, jigsos a hefyd yn ystod y sesiwn gwelsom y plant yn derbyn cyfleoedd i weithio ar dasgau ffocws megis gweithgaredd gelf o wneud hetiau. Roedd amrywiaeth o weithgareddau i’r plant yn yr ardal tu allan a rhyddid iddynt ymgysylltu â gweithgarwch o’u dewis eu hunain. Roedd y plant yn derbyn anogaeth i gyfathrebu a mynegi eu hoffterau. Rhoddwyd cyfle i blant ddewis ble i eistedd amser byrbryd a hefyd i ddewis eu hoff ganeuon amser canu. Er bod y mwyafrif o’r plant o gefndir di-Gymraeg roeddynt yn derbyn cefnogaeth ddigonol i’w galluogi i gyfathrebu yn Gymraeg a hefyd pan oedd angen roedd cyfle i blant gyfathrebu yn eu mamiaith.

Mae’r plant yn profi cyfleoedd ysgogol i’w galluogi i fynegi eu hunain, ac yn derbyn gofal gan staff sydd yn mynegi diddordeb ac yn gwrando ar eu hymatebion.

### 1.2 I ba raddau mae’r plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae’r plant yn hapus a bodlon gyda’r staff ac wedi llwyddo i feithrin hunan hyder am eu bod yn adnabod y gwasanaeth yn dda.

Roedd perthynas glòs yn bodoli rhwng y plant a’r staff, a chawsant groeso cynnes ar gyrraedd a sylw tyner i rai oedd wedi cynhyrfu, oedd yn eu galluogi i ymdopi gydag absenoldeb eu rhieni. Roedd y plant yn derbyn sylw llwyr y staff yn syth ar ôl cyrraedd oedd yn ei gwneud hi’n hawdd iddynt ymgartrefu. Roedd pob un o’r plant yn brysur ac yn ddedwydd wrth ymgysylltu gyda gweithgareddau amrywiol. Roedd y plant yn adnabod y staff yn dda, a’r cyfeillgarwch a’r agosatrwydd hyn yn rhoi synnwyr o berthyn i blant. Roedd gwaith y plant wedi ei arddangos ar y waliau oedd yn rhoi synnwyr o berthyn i blant ac ymdeimlad bod eu cyflawniadau yn cael eu dathlu. Gwelsom bod anghenion unigolion yn cael eu diwallu wrth i un plentyn ofyn am gwtsh a chael ymateb cadarnhaol yn syth.

Mae’r plant yn teimlo’n ddiogel a hapus yng ngofal y staff ac yn cael eu trin yn addfwyn a boneddigaidd.

## 1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu i reoli eu hymddygiad, cydweithio a chymryd eu tro, a meithrin perthynas ag eraill yn llwyddiannus.

Roedd y plant yn elwa o'r pwyslais amlwg a'r ganmoliaeth gyson sy'n bodoli yn y Cylch. Roedd y plant yn arddangos ymddygiad derbyniol yn eu chwarae ac wrth eistedd wrth y bwrdd amser byrbryd am eu bod yn derbyn perswâd cadarnhaol, ac anogaeth a chanmoliaeth mewn llais addfwyn. Gwelsom y plant yn chwarae ac yn sgwrsio'n hapus gyda'i gilydd ac yn arddangos arwyddion cadarnhaol o feithrin perthynas gyda'u cyfoedion yn enwedig wrth chwarae tu allan. Roedd y wal teuluoedd yn sbardun sgwrs rhwng y plant ac efo staff a hefyd yn gysur iddynt wrth weld y wynebau cyfarwydd. Roedd y plant yn dysgu rhannu wrth gymryd ffrwyth o'r plat amser byrbryd drwy godi ymwybyddiaeth bod angen sicrhau bod darn o ffrwyth ar gael i bawb. Hefyd roedd amser byrbyrd yn ddigwyddiad cymdeithasol wrth i'r plant sgwrsio gyda'r staff o gwmpas y byrddau wrth fwyta. Gwelsom y plant yn tacluso a helpu'i gilydd a hyn yn datblygu eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau.

Mae'r plant yn derbyn esiampl dda o sut i feithrin perthynas ag eraill a sut i barchu teimladau eraill. Mae hyn yn ysgogi datblygiad cymdeithasol y plant.

## 1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae plant yn mwynhau'r cyfleoedd ysgogol i chwarae a dysgu. Mae nhw i gyd yn ymgysylltu â gweithgareddau o'u dewis eu hunain ac wedi ymgolli'n llwyr yn y gweitharwch.

Gwelsom bod y plant i gyd yn mwynhau eu chwarae ac yn weithgar a'u bod yn chwilfrydig wrth ddysgu ac ymateb i brocio'r staff. Roedd y plant yn y gwasanaeth hyn yn mwynhau'r cyfleoedd i ganu, amser cylch ac eto cyn mynd adref. Roedd eu brwdfrydedd wrth weld y tegan yn dod allan o'r bag yn amlwg yn eu parodrwydd i ganu'r gân gyfatebol. Roedd sgwrs y plant gyda'r staff oedd yn codi o wahanol weithgareddau a chwarae yn annog datblygiad ieithyddol y plant.

Mae'r plant yn derbyn cydbwysedd da o weithgareddau strwythuredig a chwarae rhydd, sy'n eu galluogi i wneud penderfyniadau syml ac i ddysgu a datblygu drwy chwarae.

## 1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae plant yn derbyn cyfleoedd ysgogol i ddysgu a dod yn annibynnol.

Roedd y plant yn derbyn cyfleoedd cyson i ddatblygu a meithrin eu hannibyniaeth mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Gwelsom blant yn cyflawni gweithgaredd grefft o greu het, ac anogwyd plentyn i dorri'r siapiau yn annibynnol er mwyn hybu datblygiad a hyder mewn gallu. Gwelsom blant yn datblygu sgiliau corfforol tu allan wrth chwarae

gyda'r amrywiaeth o adnoddau ar eu cyfer oedd yn ennyn eu chwilfrydedd megis y gwesty pryfaid, y cwt trychfilod a'r bath dŵr i'r gwenyn. Roedd y plant yn ymateb yn frwdfrydig ac yn dangos bod eu sgiliau iaith a rhifedd yn cael eu datblygu. Amser byrbryd roedd anogaeth i blant ddatblygu eu sgiliau hunan gymorth wrth helpu eu hunain i'r ffrwythau, tywallt diod eu hunain er bod help ar gael os oedd angen. Roedd rhai o'r plant yn gwisgo cotiau eu hunain cyn mynd allan, fodd bynnag gellid datblygu'r cyfleoedd sy'n ennyn annibyniaeth pob plentyn wrth wisgo a thynnu eu cotiau.

Mae'r plant yn derbyn cyfleoedd da i ddysgu a datblygu sgiliau hunangymorth.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn y gwasanaeth yn cadw plant yn ddiogel ac yn ofalgar tuag atynt gan lwyddo i feithrin perthynas gynnes a hwyliog gyda hwy. Hyrwyddir datblygiad plant a mae'r staff yn dangos dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau allweddol ac yn gwybod pryd a ble i gael cymorth.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae nifer o weithdrefnau yn cael eu gweithredu'n effeithiol i sicrhau bod y plant yn ddiogel ac iach.

Gwelsom bod y staff yn cadw at weithdrefnau i sicrhau diogelwch y plant. Drwy sgwrs, dywedodd staff wrthym eu bod yn gyfarwydd â'r polisi diogelu plant ac yn gwybod pa gamau i'w cymryd a gyda phwy i gysylltu pan gyfyd pryderon. Cedwir y drws a'r giat allanol wedi eu cloi bob amser. Gofynnir i ymwelwyr â'r gwasanaeth i arwyddo llyfr a chedwir cofnod dyddiol o bresenoldeb plant a staff. Gwelsom bod asesiad risg mewn lle a bod camau gweithredu ar waith yn yr arferion dyddiol. Cynhelir ymarferion tân bob hanner tymor a gwelsom gofnodion i gefnogi hyn. Hyrwyddir diogelwch plant ymhellach gan staff sy'n cadw cofnodion manwl o unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau a mae pob aelod o staff yn meddu ar gymhwysterau cymorth cyntaf priodol. Er nad oedd unrhyw un o'r plant ar feddyginiaeth ar hyn o bryd gwelsom bod ffurflenni i gofnodi hynny mewn lle. Mae'r staff hefyd yn hyrwyddo iechyd plant drwy sicrhau bod byrddau yn cael eu diheintio cyn amser byrbryd a hefyd bod plant yn golchi eu dwylo. Roedd plant yn derbyn byrbryd iach o ffrwythau amrywiol, tôst brown a diod o laeth neu ddŵr. Gwelsom weithdrefn newid clwt ar waith a sylwyd bod staff yn cadw at ganllawiau rheoli heintiau bob amser.

Mae'r staff yn llwyddo i gadw'r plant yn ddiogel ac iach, ac yn gyfarwydd â'r polisïau a weithredir.

### 2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?

Mae'r staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn gyson ac yn gosod esiampl o ymddygiad derbyniol yn barhaus.

Roedd y staff wedi meithrin perthynas gynnes gyda'r plant i greu awyrgylch gartrefol yn y gwasanaeth, gan weithio'n unol â'r polisi rheoli ymddygiad. Roedd y staff yn rhoi sylw i'r plant drwy'r adeg ac yn annog ymddygiad derbyniol drwy atgoffa plant i rannu a sgwrsio gyda hwy am bethau cyfarwydd mewn llais addfwyn a rhoi canmoliaeth gyson. Gwelsom blentyn yn derbyn canmoliaeth am ganu a hyn yn ennyn ei huan huder. Roedd y staff yn rhesymu mewn ffordd hyfryd wrth annog plant i gymryd tro a rhannu – 'pan ddaw fory byddi di'n gallu cael e'. Clywsom y staff yn annog y plant i

ryngweithio a meithrin perthynas gan fodelu iaith gwrtais bob amser oedd yn cael ei ddynwared gan y plant. Roedd staff yn aml yn cyfeirio at y plant gyda thermau anwylder gan greu perthynas gynnes rhyngddynt. Roedd y staff yn gwybod sut i fodelu ymddygiad cadarnhaol gyda'r plant a gwelsom hwy yn dynwared yr ymddygiad hwn ac yn creu awyrgylch gartrefol a chynnes.

Mae'r staff wedi llwyddo i osod terfynnau ymddygiad yn llwyddiannus sy'n eu galluogi i reoli'r rhyngweithio'n llwyddiannus.

**2.3 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn bodloni eu hanghenion unigol?**

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu amgylchedd ysgogol lle gall pob plentyn ddatblygu ar ei gyflymder ei hun.

Gwelsom staff yn annog datblygiad iaith y plant drwy roi sylw parhaus iddynt a'u hannog i sgwrsio. Roedd y staff yn sgwrsio gyda'r plant amser byrbryd gan greu awyrgylch gymdeithasol hyfryd. Roedd y staff yn sgwrsio gyda'r plant am eu bywydau adref i feithrin perthynas glòs a dod i'w hadnabod yn well. Roedd cynllun gweithiwr allweddol ar waith yn y gwasanaeth hwn, oedd yn hwyluso'r arsylwadau o ddatblygiad plant a sicrhau bod anghenion unigolion yn cael eu diwallu. Gwelsom gofnodion o'r arsylwadau a datblygiad plant sydd yn galluogi'r staff i gynllunio gweithgareddau addas gan nodi amcanion y dysgu oedd yn adlewyrchu meysydd dysgu'r cyfnod Sylfaen. Roedd y cofnodion hyn yn gyfredol ac yn nodi cyflawniadau mwyaf diweddar y plant. Roedd plant yn derbyn cyfleoedd i chwarae'n annibynnol ac mewn grwpiau er mwyn hyrwyddo eu datblygiad a'u gallu i ryngweithio gyda chyfoedion.

Mae'r staff yn darparu ystod o weithgareddau'n llwyddiannus i hyrwyddo datblygiad plant a chyfoethogi eu profiadau gan ymateb i anghenion unigolion.

## 3. Yr amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn ystafelloedd addas mewn tŷ a addaswyd ar gyfer gofal plant. Mae safonau da o lanweithdra a diogelwch yn cael eu hymarfer. Mae'r adnoddau a'r dodrefn o ansawdd da sy'n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ardal tu allan yn addas iawn gyda chyfleoedd i blant fod yn anturus ac sy'n ennyn eu chwilfrydedd.

### Ein canfyddiadau

**3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?**

Mae gweithdrefnau mewn lle i sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd sy'n ddiogel a glân.

Roedd mesurau diogelwch cadarn ar waith i sicrhau diogelwch plant. Roedd y staff yn ymwybodol o'r peryglon wrth i blant estyn amrywiaeth o deganau ac anogir y plant i dacluso a chadw cyfarpar o fewn yr ardaloedd perthnasol i hwyluso diogelwch ar gyfnodau rheolaidd. Gwelsom bod asesiadau risg manwl mewn lle a'u bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Roedd diogelwch yr amgylchedd yn cael ei wirio'n ddyddiol a chadwyd cofnodion,ond ni welsom gofnodion o'r gwirio yn yr ardal tu allan. Roedd yr ardal allanol yn ddiogel gyda wal gadarn yn ei amgylchynu.

Mae'r arweinwyr yn ystyried ac asesu unrhyw risgiau sy'n codi'n barhaus er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i blant.

**3.2 Pa mor dda mae'r aweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?**

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd safonol ar gyfer plant. Mae yma ofod ac adnoddau digonol sy'n diwallu anghenion unigolion.

Roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu o chwech ystafell a rhennir yr ardaloedd profiad rhwng yr ystafelloedd hyn, er enghraifft i fyny'r grisiau roedd ystafell fathemateg, ystafell arall ar gyfer ardal cartref, adeiladu a chwarae rôl ac un ystafell ar gyfer y plant hŷn gyda ffocws ar weithgareddau penodol i'w paratoi ar gyfer dechrau'r ysgol. Roedd y brif ystafell chwarae yn lliwgar a chroesawgar gydag arddangosfa o waith y plant sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae'r ardal tu allan yn hyfryd ac yn cynnig cyfleoedd ysgogol i blant fod yn chwilfrydig. Ceir canolfan antur, cegin fwd, tŷ trychfilod, gwesty pryfed, ardal blannu, wal ddŵr, wal 'fidget', seddau o foncyffion ar gyfer amser stori, ardal natur ac ardal chwarae. Yn ddiweddar enillodd y gwasanaeth wobr gan sefydliad cenedlaethol am yr ardal allanol orau. Mae'r cyfleusterau yn gyfleus i'r plant ac yn hwyluso eu defnydd annibynnol ohonynt.

Mae'r arweinwyr wedi llwyddo i ddarparu amgylchedd groesawgar a hwyliog sy'n rhoi cymhelliant i'r plant yn eu datblygiad ac yn cyfoethogi'u profiadau.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r arweinwyr yn darparu ystod o adnoddau a chyfarpar safonol sy'n eu galluogi i ddiwallu anghenion unigol.

Gwelsom bod y dodrefn yn yr ystafelloedd yn safonol ac yn addas i'r plant. Roedd yr adnoddau o safon a chyflwr da. Roedd llawer o adnoddau oedd yn adlewyrchu amrywiaethau ethnig cymdeithasol. Hefyd roedd y sylw i ddeunyddiau cynaliadwy wedi ei adlewyrchu yn yr adnoddau pren ar defnydd ysbrydoledig o ddeunyddiau ac offer a ailgylchwyd. Roedd y disglau dŵr i'r gwenyn a grëwyd o gloriau cartonau llefrith, a'r llinynau gyda hen wasieri yn ennyn diddordeb y plant ac yn cyfleu neges bwysig iddynt am ailgylchu. Roedd yr adnoddau yn ysgogi plant i arbrofi a dysgu wrth chwarae.

Mae'r arweinwyr wedi llwyddo i gasglu storfa eang o adnoddau gwreiddiol i annog mwynhad a datblygiad y plant, a'u bod o ansawdd safonol.

# 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

## Crynodeb

Darperir arweinyddiaeth a rheolaeth briodol yn y gwasanaeth hwn. Gweithredir gweithdrefn hunan-arfarnu gadarn sy'n galluogi gwelliant a datblygiad yn y gwasanaeth a gynigir i rieni a phlant.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r person â gofal a'r unigolyn cyfrifol yn rhoi arweinyddiaeth effeithiol i'r gwasanaeth gan sicrhau bod cofnodion a dogfennau safonol yn drefnus.

Gwelsom bod y ffeil polisïau a gweithdrefnau yn gyflawn a chyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y staff yn wybyddus o'r polisïau a'r gweithdrefnau a gwelsom hwy yn eu hymgorffori'n briodol yn eu harferion dyddiol. Gwelsom enghreifftiau o ffeiliau'r plant a chael eu bod yn gynhwysfawr, yn gyfredol a'r ffurflenni oedd angen eu harwyddo wedi gwneud. Mae'r person â gofal wedi ymrwymo i'w chyfrifoldebau ac yn sicrhau bod aelodau staff yn mynychu cyrsiau yn rheolaidd er mwyn sicrhau safon uchel o ofal. Mae gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben cyfredol a gwelsom bod y wybodaeth ddisgwyliedig wedi ei gynnwys.

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol ac yn cefnogi'r gwasanaeth i ddarparu gofal safonol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod rhai gweithdrefnau yn cael eu gweithredu er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth a chynllunio i wella pan fod angen.

Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn cael ei arfarnu'n rheolaidd a gwelsom y manylion a gyflwynwyd yn yr ymatebion i holiadur hunan-asesu Arolygaeth Gofal Cymru (AGC). Roedd y staff yn cyd-weithio i gynllunio gweithgareddau ac yn cyd-drafod cyn i'r plant gyrraedd y gwasanaeth. Roedd tystiolaeth bod cynlluniau ar waith i wella ansawdd y gwasanaeth er lles y plant sy'n mynychu. Rhoddir cyfle i rieni fynegi barn am wahanol agweddau o'r gwasanaeth a'r effaith ar ddatblygiad eu plant mewn holiaduron rheolaidd.

Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd arfarnu er mwyn datblygu i'r dyfodol, ac yn gweithredu strwythurau hunan-arfarnu cadarn.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r person â gofal a'r unigolyn cyfrifol yn rheoli'r adnoddau'n dda ac yn arwain tîm o staff sydd yn hapus yn eu gwaith ac sy'n glir ynglŷn â'u dyletswyddau.

Gwelsom bod y staff yn cydweithio'n effeithiol ac yn cefnogi ei gilydd bob amser. Roedd dyletswyddau wedi eu rhannu a phob aelod o staff yn gwbl gyfarwydd â'u

dyletswyddau ac yn eu cyflawni mewn ffordd effeithiol. Hefyd gwelsom dystiolaeth bod y staff yn cyd-gynllunio'r gweithgareddau sy'n rhoi ymdeimlad o berchnogaeth i'r staff a'r hyn sy'n digwydd yn y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth wedi mabwysiadu strategaeth newydd ar gyfer arfarnu staff ac wedi dechrau'r weithdrefn, ond dylid sicrhau bod pob aelod yn cael eu harfarnu cyn gynted â phosib o dan y drefn newydd. Gwelwyd bod bylchau yn y ffeiliau staff ac nad oedd geirda ar gyfer un o'r gweithwyr ond anfonwyd copi ohonynt ymlaen i'r arolygydd. Dywedwyd wrthym bod diwygio'r ffeiliau staff ar waith oherwydd newidiadau ymhlith y strwythur staffio.

Mae'r rheolaeth yn gadarn ac effeithiol ac yn galluogi staff i roi o'u gorau.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae perthynas effeithiol yn bodoli rhwng y gwasanaeth a'r rhieni, gyda llwybrau cyfathrebu cyson a chydweithio er mwyn sicrhau lles y plant.

Cawsom gyfle i siarad gyda rhai o'r rhieni a roeddynt yn canmol y gofal a'r staff yn fawr iawn. Soniodd rhieni am ymrwymiad y staff i sicrhau bod plant yn teimlo'n gartrefol a diogel a hefyd ei bod yn hawdd mynd atynt i drafod unrhyw fater sy'n codi a bod cyfle i wneud hynny yn ddyddiol. Clywsom ganmoliaeth arbennig i'r sioeau mae'r plant yn perfformio ac roedd edrych ymlaen yn fawr at y sioe Nadolig. Rhoddir cyfle i rieni drafod datblygiad eu plant unwaith y flwyddyn, ond dywedwyd wrthym bod hwn yn faes yr oeddynt yn cynllunio i'w wella drwy gynnal cyfarfodydd amlach. Roedd y staff yn rhoi amser i sgwrsio gyda rhieni ar ddiwedd pob sesiwn hefyd er mwyn trafod unrhyw fater oedd yn codi. Mae'r gwasanaeth yn cydweithio'n dda gyda sefydliadau cefnogi cyn ysgol cenedlaethol a 'r gymuned leol.

Mae'r gwasanaeth wedi datblygu cysylltiadau cadarnhaol gyda rhieni sy'n defnyddio'r gwasanaeth a chyrff eraill er lles plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac argymhellion yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Edrych am gyfleoedd pellach i annog plant i feithrin sgiliau hunan gymorth;
- cofnodi’r gwiriadau yn yr ardal tu allan yn ddyddiol;
- sicrhau bod y system newydd arfarnu staff yn cael ei gwblhau a
- chwbhau diwygio’r ffeiliau staff a sicrhau bod y dogfennau angenrheidiol wedi eu cynnwys.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn ymweliad dirybudd. Cynhaliwyd yr arolygiad ar ddydd Iau 18 Hydref 2018 o 8:45– 13:00. Roedd hyn yn cynnwys cyfnod i sgwrsio ymhellach gyda'r person â gofal ynghyd â galwad ffôn ychydig ddyddiau yn ddiweddarach.
Hefyd:

- Adolygwyd gwybodaeth a oedd eisoes gan AGC – sef adroddiad o'r arolwg blaenorol, datganiad o ddiben ac ymatebion i'r hunan asesiad;
- siaradom gyda'r plant a'r rhieni. Hefyd siaradom gydag aelodau staff;
- edrychom ar ystod eang o ddogfennau, ffeiiau staff, polisïau a chofnodion, ffeiliau plant a chynlluniau gweithgareddau ac arfarniadau staff ac
- arolygwyd ymarferion a gweithdrefnau yn ystod yr arolwg gan gwblhau arsylwad SOFI2 ar grŵp o blant er mwyn casglu tystiolaeth ar ymgysylltiad plant a'r gofal a ddarperir gan staff.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Unigolyn Cyfrifol | Anna Webb-Price |
| Person â Gofal | Sharon Lewis-Connolly |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 23 |
| Ystod oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Oriau agor | 9:00 – 12:30<br>Llun – Gwener, Tymor Ysgol |
| Prif iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 25 Chwefror 2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad arolygu hwn | 18 Hydref 2019 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol Y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant. |
| Gwybodaeth ychwanegol: | |